

NEWYDDION TAI LLOCHES

CROESO i rifyn cyntaf o'ch cylchlythyr Tai Lloches newydd. Y tu mewn, fe welwch yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru, neges oddi wrth eich Cydlynnydd Gweithgareddau a gwybodaeth am ein gwasanaeth Cefnogaeth Hyblyg.

Mae yna gyfle hefyd i ennill £25 mewn talebau siopa ar y stryd fawr drwy awgrymu enw ar gyfer y cylchlythyr!

LLWYDDIANT GWOBRAU AM DAI LLOCHES!

Ym mis Medi, cynhaliom y trydydd Digwyddiad Dathlu Cartrefi Caerffili flynyddol yn Neuadd Goffa Trecelyn. Yn ystod y noson, cyhoeddwyd yr enillwyr ar gyfer ein cystadleuaeth garddio cyntaf, ochr yn ochr â'r drydedd Wobr Trawsnewid Bywydau a Chymunedau flynyddol.

Roedd tenantiaid a staff tai lloches yn llwyddiannus iawn ar y noson, a cherddon nhw i ffwrdd gyda nifer o wobrau. Ein llongyfarchiadau i:

- **Steve Perkins**, Glynsyfi, Tredegar Newydd – Enillodd 2il le ar gyfer y Fasged Grog / Pot / Cynhwysydd gorau
- **Cyfeillion Cwrt Gwyddon a The Ranks** - yn ail yn y Wobr Grŵp - Gweddnewid Bywydau
- **Steve Jarrett**, Swyddog Tai Lloches - yn ail yng Ngwobr Cyflogai 'Yr Ail Filltir'

- **Mona Whittaker**, Cwrt Alexandra, Ynysddu - yn ail yn y Wobr Unigol - Gweddnewid Cymunedau

Enillodd **MIKE PERRY**, tenant yn Trem y Goedwig, Wattsville y lle cyntaf yn y Wobr Unigol - Gweddnewid Cymunedau. Cafodd Mike ei enwebu gan Glynis Waite, Swyddog Tai Lloches, am ei ymdrechion wrth weddnewid yr ardd gymunedol yn Trem y Goedwig, a hefyd ar gyfer yr holl bethau mae e'n ei wneud i gefnogi ei gymdogion.

Yn anffodus, roedd Mike yn sâl ar noson y digwyddiad ond cyflwynwyd ei wobwr yn ystod bore coffi yn Trem y Goedwig.

Llongyfarchiadau unwaith eto i bob un o'r enillwyr - rydym yn edrych ymlaen at weld llawer o geisiadau tai lloches eto'r flwyddyn nesaf!



Cartrefi Caerffili
Caerphilly Homes



GWELLIANNAU SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC)

Cytunwyd ar raglen erbyn hyn i gynnal gwelliannau SATC i 28 o gynlluniau tai lloches dros y 4 blynedd nesaf.

Beth yw'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)?

Mae'r SATC yn set o safonau y mae'n rhaid i bob cartref y cyngor a chymdeithasau tai yng Nghymru gyfarfod. Yn ôl y safon, dylai pob cartref fod:

- Mewn cyflwr da
- Yn ddiogel
- Yn cael ei wresogi'n ddigonol
- Gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi diweddar
- Cael ei reoli'n dda
- Mewn amgylcheddau deniadol a diogel
- Yn addas ar gyfer teuluoedd penodol

Gall gwaith mewnol gynnwys ceginau, ystafelloedd ymolchi, gwres ac ailweirio trydanol newydd mewn rhai cartrefi. Gall gwaith allanol gynnwys, er enghraifft, drysau newydd, cafnau/pibellau a gwaith toi.

Bydd arolygon yn cael eu cynnal ym mhob cynllun, a bydd angen i bob cartref gael arolwg unigol i asesu pa waith sydd ei angen er mwyn dod ag ef i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru. Bydd eich anghenion penodol hefyd yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r gwaith, a bydd ein tîm Therapi Galwedigaethol SATC yn darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol i'r tenantiaid hynny sydd eu hangen.

Bydd gweithlu mewnol y Cyngor yn cynnal y gwaith mewnol yn ogystal â'r gwaith allanol ar y cynlluniau tai lloches, gyda chefnogaeth gan is-gontractwyr yn ôl yr angen.

Bydd gennych Swyddog Cyswllt Tenantiaid dynodedig a fydd yn brif bwynt cyswllt i chi cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith. Bydd rhywfaint o darfu tra bod y gwaith yn cael ei gynnal, ond bydd eich Swyddog Cyswllt Tenantiaid yn eich cefnogi ac yn helpu i geisio lleihau cymaint o darfu â phosibl.

Os nad ydym wedi gwneud hynny eisoes, byddwn yn cysylltu â chi cyn i'r arolygon ddechrau yn eich cynllun. Byddwn hefyd yn trefnu i aelodau allweddol o'r tîm SATC i ddod i gwrdd â chi yn y cynllun cyn i unrhyw arolygon ddechrau. Bydd hwn yn gyfle i chi gael gwybod mwy am y gwelliannau ac i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn y cyfamser, siaradwch â'ch Swyddog Tai Lloches.

Dyma rai aelodau allweddol o'r tîm SATC



Natalie Hughes,
Therapydd
Galwedigaethol
SATC



Julian Thomas,
Syrfëwr SATC



James Pizey,
Syrfëwr SATC



Lyndsay Mote,
Swyddog Cyswllt
SATC



**Sherell
McLaughlan,**
Swyddog Cyswllt
Tenantiaid SATC

Enillwch £25 o dalebau siopa'r stryd fawr

Hoffem i chi ein helpu enwi hwn, eich cylchlythyr Tai Lloches newydd. Yn ogystal â gweld yr enw a ddewiswyd ganddoch ar deitl pob rhifyn, bydd y cais buddugol hefyd yn derbyn £25 o dalebau siopa'r stryd fawr.

I gymryd rhan, llenwch y ffurflen isod a'i hanfon yn ôl atom erbyn dydd Gwener 16eg Rhagfyr; Bydd ein panel golygyddol wedyn yn dewis enillydd – pob lwc!

Eich enw:

Eich cyfeiriad:

Rhif ffôn cyswllt:

Enw ar gyfer y cylchlythyr:

Torrwch yr rhan hon allan o'ch cylchlythyr a naill ai ei rhoi i'ch Swyddog Tai Lloches neu fe'i postiwrch atom yn **Cyfathrebu (Tai), Tŷ Rhuddwern, Rhodfa Carlton, Ystad Diwydiannol Pen-y-Fan, Crymlyn, NP11 4EA.** Gallech hefyd e-bostio eich cais atom; anfonwch y wybodaeth uchod i **ymholiadaus@caerffili.gov.uk**

Neges oddi wrth Liam Bouse, Cydlynnydd Gweithgareddau



Ers i mi ddechrau yn y rôl hon ym mis Ionawr 2015, rwyf wedi gweld cynnydd enfawr yn y nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, triapiau a digwyddiadau ar draws ein 34 o gynlluniau tai lloches.

Mae wedi bod yn galonogol iawn gweld cymaint o ddiddordeb gan ein tenantiaid. Ygweithgaredd mwyaf poblogaidd oedd y teithiau dydd; rydym wedi trefnu 44 o deithiau hyd yn hyn, gyda dros fil o deithwyr. Mae llyfdd rydym wedi ymweld ar ein teithiau'n cynnwys Bae Caerdydd, Abertawe / Y Mwmbwls, Dinbych y Pysgod ac Ynys y Barri.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud cynlluniau ar gyfer teithiau yn y dyfodol - gadewch i mi wybod os oes gennych unrhyw awgrymiadau!



Digwyddiad poblogaidd arall yn nyddiaduron tenantiaid yw clwb cinio Sefydliad y Glowyr Llanhilledd, gyda thros 200 o denantiaid yn mynychu rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref eleni. Mae'r clwb cinio ar y dydd Mercher olaf o bob mis ac yn dechrau am hanner dydd.

Pam mae'r clwb cinio mor boblogaidd? Wel am £6 yn unig, gallwch chi gael pryd tri chwr, adloniant, gêm o bingo a thocyn raffl am ddim!

Mae ein sesiynau canu grŵp 'Golden Oldies' misol hefyd yn boblogaidd

iawn. Ar hyn o bryd mae gennym ddwy sesiwn ar waith - 2:30 p.m. ar y dydd Mawrth cyntaf o bob mis ym Maesteg, Pentwynmawr a 1:30p.m. y dydd Gwener olaf o bob mis yn Y Llwyni 2, Tretomos.

Dyma rai ffeithiau a ffigurau am ein gweithgareddau tai lloches:

- Bu dros 600 o weithgareddau, digwyddiadau a theithiau yn y 18 mis diwethaf
- Rydym wedi cynnal dosbarthiadau ymarfer corff ysgafn mewn 16 o gynlluniau
- Bu dosbarthiadau T.G. mewn 14 o gynlluniau
- Trefnwyd sesiynau celf a chrefft mewn 7 cynllun
- Mae tenantiaid wedi cael eu trin i sesiynau maldodi mewn 3 chynllun
- Mae llawer o'n cynlluniau wedi mwynhau perfformiadau gan gorau ysgolion
- Mae sesiynau blasu bwyd Wiltshire Farm wedi cael eu trefnu ar draws y fwrdeistref sirol
- Mae tenantiaid wedi cael mynediad i holl glybiau pontio'r cenedlaethau mewn ysgolion lleol

Mae llawer yn digwydd - fel y gwelwch! Cadwch eich llygaid ar agor ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau a theithiau yn y dyfodol!

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi fy nghefnogi gyda'r holl weithgareddau ddiwyddu trefnu. Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddymuno i chi i gyd Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda!

Liam Bouse,
Cydlynnydd Gweithgareddau ar gyfer
Tai Lloches



Beth mae ein tîm Cymorth Hyblyg yn ei wneud i helpu tenantiaid?

Mae Cymorth Hyblyg yn wasanaeth symudol sy'n eich helpu i reoli eich materion ac i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Yn dibynnu ar eich anghenion, gall gefnogaeth gynnwys help gyda phethau fel rheoli eich incwm, biliau a chyllidebu, eich cyfeirio at wasanaethau eraill, llenwi ffurflenni a sgiliau byw.

Mae ein tîm Cymorth Hyblyg yn cynnwys 4 aelod: Uwch Swyddog Cymorth Hyblyg a 3 Swyddog Cymorth Hyblyg. Ers in ni ddechrau ym mis Mawrth 2014, rydym wedi cefnogi tua 450 o gleientiaid a chau 165 o achosion

Ile mae cymorth wedi'i gyflawni, neu'r cleient wedi symud i mewn i lety mwy addas.

Mae enghreifftiau o'r gefnogaeth rydym wedi'i darparu i gleientiaid yn cynnwys prosesu ceisiadau Cronfa Cymorth Dewisol (CCD) gyda chyfradd llwyddiant o 100%. Mae'r grantiau CCD wedi cael eu defnyddio i brynu pethau fel nwyddau gwyn, gwelyau, dodrefn ac ati.

Mae'r tîm hefyd yn awr yn cwblhau ffurflenni Lwfans Gweini ar gyfer cleientiaid ac wedi cael llawer o lwyddiant, gan gynnwys nifer o geisiadau ar gyfer tenantiaid tai lloches.

Mae tenantiaid hefyd wedi cael eu cynorthwyo i arbed arian drwy geisiadau i gynllun Dŵr Cymru 'HelpU' a'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Mae'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn arbed denantiaid £140 y flwyddyn ar eu biliau trydan; hyd yn hyn mae'r tîm wedi helpu arbed tenantiaid dros £3,000.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Cymorth Hyblyg Cartrefi Caerffili ar 01495 235574 neu e-bostiwrch cymorthhyblyg@caerffili.gov.uk

NEWYDDION TAI LLOCHES: RHIFYN 1

